Plant yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol Plant yng Nghymru 2010/11

Siarad gydag Un Llais

Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	3
Cyflwyniad	4
Datblygu a Chefnogi Rhwydweithiau Cryf	5
Cynhyrchu a Lledaenu Gwybodaeth	8
Polisi, Datblygu Ymarfer ac Ymchwil	10
Cynrychiolaeth ac Ymgynghori	12
Cynyddu Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Phroffesiynol	15
Hyfforddiant	16
Cynadleddau, Seminarau a Gweithdai	17
Prosiectau Cyrraedd y Nod	18
Cefnogi Mentrau Newydd a rhai sydd eisoes yn Bodoli	20
Llywodraethiant	21
Aelodau Plant yng Nghymru	22
Crynodeb Ariannol	24

Y Pencadlys
25 Plas Windsor
Caerdydd, CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434
Ffacs: 029 2034 3134

Swyddfa Gogledd Cymru
Uned 2, Doc Victoria
Caernarfon, LL55 1TH
Ffôn: 01286 677570

www.plantyngnghymru.org.uk
E-bost: info@childreninwales.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1020313
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 2805996

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Roedd 2010/11 yn flwyddyn brysur i Plant yng Nghymru, gyda llawer o'r sector plant yng Nghymru yn wynebu cyfnod o ansicrwydd ariannol a llawer o newidiadau gwleidyddol. Ym mis Mai 2010 daeth llywodraeth glymblaid newydd i San Steffan, a bu Plant yng Nghymru'n monitro'r newidiadau polisi yn sgîl hynny yn fanwl. Fel bob amser, buom yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau ynghylch datblygiadau polisi a oedd yn effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru mewn amrywiaeth o feysydd heb eu datganoli, yn cynnwys diwygio lles, cyfiawnder a materion yn ymwneud â mudo. Buom hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl Cymru yn cael eu clywed trwy ymateb i ymgynghoriadau a lobïo ASau Cymru am faterion perthnasol.

Bu toriad gwirioneddol i gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010. Arweiniodd y toriadau hyn at ansicrwydd ynghylch darpariaeth llawer o wasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch swyddi'r rhai oedd yn gweithio yn y sector. Roedd yr angen i gydweithio a mwyafu gwerth arian cyhoeddus er budd plant a theuluoedd yn her a ddaeth i'r amlwg ar hyd y flwyddyn.

Roedd Plant yng Nghymru yn ffodus i gael eu cynrychioli yn Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru, a sefydlwyd i edrych ar y ffordd orau o gadw gwasanaethau yng nghanol cyfyngiadau ariannol mor llym. Llwyddwyd i godi materion oedd yn destun pryder i'r sector plant a theuluoedd, ac roeddem wrth ein bodd bod cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, yn gwneud gwasanaethau i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn flaenoriaeth, gyda chyllid ar gyfer iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cael ei amddiffyn i ryw raddau.

Daeth Plant yng Nghymru â gweithwyr proffesiynol ynghyd ar draws y sectorau mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ystod y cyfnod hwn. Ym mis Rhagfyr archwiliwyd y materion cyfoes hyn yn ein Cynhadledd Flynyddol, Ymateb i'r Her: Cadw Plant ar yr Agenda, lle rhoddwyd cyfle i'r cynadleddwyr leisio eu pryderon wrth y Dirprwy Weinidog dros Blant.

Daeth y flwyddyn ariannol i ben wrth i'r ymgyrchu gychwyn ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Aeth Plant yng Nghymru ati'n frwd i lobïo'r holl bleidiau, er mwyn sicrhau bod eu maniffestos yn darparu'r polisïau gorau i blant, gan gynnwys cadw Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Buom yn gweithio gyda'n partneriaid yn y maes i gynhyrchu maniffestos ar gyfer y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant ac Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri, ac rydym wedi cefnogi gwaith yr holl sefydliadau plant mawr yn y trydydd sector yn y cyfnod oedd yn arwain at yr ymgyrch.

Ar hyd y flwyddyn mae datblygu gallu yn y gweithlu plant wedi bod yn weithgaredd allweddol. Rydym wedi cefnogi'r sector trwy amrywiaeth eang o weithgaredd amlasiantaeth, trwy ein fforymau a'n rhwydweithiau, ein digwyddiadau a thrwy ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth.

Mae Plant yng Nghymru yn awr yn edrych ymlaen at heriau 2011/12, a bydd yn sicrhau, beth bynnag ddaw, ein bod yn parhau i frwydro dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru.

Mike Shooter
Cadeirydd

Catriona Williams
Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ein nod yw hyrwyddo diddordebau'r grwpiau hyn a gweithredu i ddiwallu eu hanghenion. Drwy'r gweithgaredd hwn yr ydym yn:

- Cyfrannu at wneud gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realaeth yng Nghymru
- Ymladd am wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chwarae teg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau fod llais gan blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn sefydliad aelodaeth ac mae'n darparu amrediad o wasanaethau a gynlluniwyd i hysbysu aelodau am ddatblygiadau newydd a hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad anllywodraethol annibynnol.
Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i gyflawni'r amcanion dilynol:

- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli ac ymgynghori gydag aelodau
- Datblygu polisi, ymarfer ac ymchwil
- Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus, wleidyddol a phroffesiynol
- Cefnogi cynlluniau newydd a phresennol

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut y cyflawnwyd yr amcanion hyn yn ystod

Cadarnhaodd 100% o'r ymatebwyr i Arolwg Aelodaeth Plant yng Nghymru 2011 y byddent yn argymell bod yn aelod o Plant yng Nghymru i gydweithwyr a ffrindiau.

Datblygu a Chynnal Rhwydweithiau Cryf

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso ystod eang o rwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i drafod materion polisi ac arfer. Maent yn hanfodol i'n gwaith gan eu bod yn ein helpu i ddeall y materion sy'n destun pryder sy'n effeithio ar sefydliadau ar draws y sector plant. Trwy'r rhwydweithiau hyn gallwn roi gwybod i'r aelodau am ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a datblygu persbectif priodol ar ddatblygiadau polisi.

Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth yn darparu cyfle i ymarferwyr yn y maes rannu arfer, profiad a gwybodaeth ynghylch eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae'n cyfrannu at wella datblygiad arfer eiriolaeth ledled Cymru.

Mae Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yn cyfrannu at ddatblygiad eiriolaeth effeithiol yng Nghymru ac yn ei gynnal. Y nod yw hyrwyddo gwaith partneriaeth a strategaethau datblygu rhwng sefydliadau. Mae'n hwyluso datrys problemau ac yn datrys gwrthdaro buddiannau a allai godi.

Mae'r Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE) yn ceisio hyrwyddo atal damweiniau ac anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'n cefnogi ymarferwyr sydd â rôl i'w chwarae yn y broses o leihau anafiadau. Mae Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd yn cyfarfod yn rheolaidd yn Ne Cymru er mwyn caniatáu i ymarferwyr gyfnewid arbenigedd a gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae Rhwydwaith Ymgyfraniad y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (CYPPINC) wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS). Mae'n galluogi cynrychiolwyr o Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol i wella gwybodaeth, cynnig cefnogaeth a dealltwriaeth o'r ddeutu er mwyn gwella eu gwaith mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae Grŵp Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn galluogi ymarferwyr yng Ngogledd Cymru i gwrdd yn rheolaidd i gyfnewid arbenigedd a gwybodaeth ar ystod o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae Grŵp Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion plant o dan wyth oed a'u teuluoedd, ac yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau o bob sector. Nod y grŵp yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o anghenion pob plentyn ifanc a'u teuluoedd a'r hyn ddylai fod ar gael iddynt, gan ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus a chyflawni newid.

""Rwy'n cael bod mynd i Gyfarfod o'r Fforwm Anabledd yn fuddiol iawn. Pan fyddwch chi'n gweithio gartre mae'n amlwg yn fwy anodd gwybod am yr holl bolisïau a gweithdrefnau diweddaraf sy'n cael eu cynllunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhywbeth sydd o bosib yr un mor werthfawr yw'r cyfle i gwrdd â phobl o'r sector statudol a chlywed eu barn ar ddeddfwriaeth newydd/a ragwelir, yn ogystal â chael y newyddion diweddaraf am fentrau newydd yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae hefyd yn gyfle da i 'rwydweithio'. Fe ddes i o'r cyfarfod diwethaf wedi dysgu pedwar peth defnyddiol iawn, a drosglwyddais i'm cydweithwyr yn ein Cyfarfod Tîm nesaf."
Ymgynghorydd De-ddwyrain Cymru, Cymdeithas Spina Bifida a Hydrocephalus.

Clymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant yw Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001, ac mae'n gweithio i gynyddu dealltwriaeth gyhoeddus a phroffesiynol o dlodi plant yng Nghymru a mesurau i'w ddileu. Mae'n lobïo dros bolisïau ar bob lefel yn y llywodraeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Mae Fforwm Tadolaeth Cymru yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n galluogi'r aelodau i gyfnewid arfer da, ymateb i ymgynghoriadau a hybu pwysigrwydd tadau ym mywydau plant.

Rhwydwaith amlasiantaeth yw Grŵp Polisi Tadolaeth Cymru, ac mae'n cydnabod rôl bwysig tadau wrth fagu eu plant. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar faterion polisi penodol er mwyn gosod agenda ar gyfer gwaith yng Nghymru. Rhwydwaith amlasiantaeth o sefydliadau rhianta yw'r Fforwm Magu Plant, sy'n hyrwyddo rhannu arfer da, lledaenu gwybodaeth berthnasol, hyfforddiant a safonau ansawdd, ac yn cyfleu barn rhieni, gofalwyr a phlant i lunwyr polisi yng Nghymru.

Mae Grŵp Llywio'r Fforwm Magu Plant yn cyfarfod bob chwarter i gynllunio'r amserlen o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae Rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cwrdd bob chwarter, gan ddod â Chydlynwyr Dechrau'n Deg yn y 22 Awdurdod Lleol at ei gilydd.

Mae Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan wedi datblygu fframwaith ymgysylltu er mwyn gwella'r berthynas waith rhwng CAFCASS Cymru a darparwyr eiriolaeth lle bo rhyngwyneb clir yn cysylltu eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc ar faterion yn ymwneud ag achosion yn y llysoedd teulu. Cyflwynodd Plant yng Nghymru, ynghyd â 4 sefydliad sy'n aelodau o'r Grŵp, dendr llwyddiannus ar gyfer gwasanaeth llinell gymorth eiriolaeth a gwybodaeth MEIC, a lansiwyd ym mis Mai 2010.
"Plant yng Nghymru sy'n trefnu Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan, sy'n wasanaeth gwerthfawr i'w holl aelodau"
Cyfarwyddwr Cymru, NYAS Cymru

Grŵp amlasiantaeth yw'r Fforwm ar Faterion Plant Anabl. Mae'n rhannu gwybodaeth ac arfer da, ac yn lobïo ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl.

Mae'r Grŵp Polisi Plant Anabl yn dod â'r rhai sydd â briff polisi yn ymwneud ag anabledd ynghyd er mwyn amlygu materion a phryderon ynghylch gwasanaethau i blant anabl. Mae cysylltiad agos rhwng y grŵp a'r Fforwm ar Faterion Plant Anabl a'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl er mwyn adlewyrchu barn aelodau'r fforwm a sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed.

Hwylusir y Rhwydwaith Canolfannau Plant Integredig gan Plant yng Nghymru i ddarparu pwynt cyswllt ar gyfer Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru. Mae'n gweithio i greu nodau cyffredin ar gyfer Cymru gyfan a

datblygu fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau safonau ansawdd.

Grŵp amlasiantaeth yw'r Gyfnewidfa Iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a'i nod yw helpu i dywys polisi ledled Cymru er hyrwyddo iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu arfer a gwybodaeth.

Y Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta. Rhwydwaith yw hwn ar gyfer y rhai sydd â rôl gydlynu strategol ym maes cynnal magu plant yn eu Hawdurdod Lleol. Mae cyfarfodydd bob chwarter yn rhoi cyfle i'r cydlynwyr rannu materion, atebion, ymchwil a pholisi gyda'u cydweithwyr.

Grŵp Gwobrwyo Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

"Mae Rhwydwaith Ymgyfraniad y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn cydnabod ei fod yn werthfawr i rai yn ein sefyllfa ni rannu gwybodaeth ac arfer da, yn ogystal â chydweithio i ddatrys problemau sy'n digwydd ledled Cymru, megis materion comisiynu. Mae Plant yng Nghymru yn hyrwyddo ein rolau a'r canlyniadau rydym yn eu cyflawni ledled Cymru. Yn bersonol, ar ôl mynd i'r cyfarfodydd ar gyfer De Cymru a Chymru gyfan, rwy'n cael bod yr adnodd yma'n werthfawr iawn, ac rwy'n gwybod bod fy rhagflaenydd o'r un farn."
Swyddog Plant a Phobl Ifanc, Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd

Sefydlwyd y rhwydwaith hwn i helpu gwaith gyda UNICEF i gynnal datblygiad y Wobr i Ysgolion sy'n Parchu Hawliau mewn ysgolion yng Nghymru.

Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac mae ar agor i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn cynnal pedwar cyfarfod undydd i rannu materion, pryderon a datblygu arfer da. Mae'r Rhwydwaith yn cynnal rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n cyfarfod i nodi materion i'w cyflwyno i'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn flynyddol.

Ymgyrchoedd

'Sdim Curo Plant! Cymru. Mae'r ymgyrch hon yn lobïo yng Nghymru i newid y gyfraith fel bod gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion.

Lansiwyd Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru gan Plant yng Nghymru, Cyswllt Teulu, Anabledd Dysgu Cymru a Mencap yn 2007. Bellach mae'r Ymgyrch yn cael ei harwain gan 10 sefydliad sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a'r nod yw sicrhau bod plant anabl a'u teuluoedd ledled Cymru yn cael yr un cyfleoedd beunyddiol â phlant a theuluoedd eraill.

Cynhyrchu a Lledaenu Gwybodaeth

Mae Plant yng Nghymru'n cynhyrchu ystod eang o wybodaeth er mwyn helpu i sicrhau bod eu haelodau'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Lledaenir gwybodaeth a fwriadwyd ar gyfer llunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr mewn amrywiaeth o fformatau.

"Rwy'n credu ei bod yn enghraifft neilltuol o'r hyn y gellir ei gyflawni â gwefan. Rwyf wedi bod yn troi ati yn fy swydd ddiwethaf ac yn y swydd hon"
Rheolwr Gwaith Achosion (Cymru), Buttle UK

Gwefan

Mae gwefan Plant yng Nghymru (www.plantyngnghymru.org.uk) yn cael ei diweddaru'n ddyddiol. Mae'n darparu gwybodaeth nid yn unig am ein gwaith ein hunain, ond hefyd am bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a gwybodaeth am wasanaethau lleol ledled Cymru. Gall aelodau Plant yng Nghymru fewngofnodi i'n Hadran Aelodau i gael mynediad i amrywiaeth o ddeunyddiau ychwanegol. Ail-lansiwyd y wefan yn 2010 gyda gwedd newydd ac Archif Polisi well ar gyfer yr aelodau.

Gwasanaeth E-friffiad Polisi

Dosbarthir E-friffiad Polisi'r Aelodau yn fisol i aelodau Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar y datblygiadau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:
- Newyddion Polisi
- Ymgynghoriadau Cyfredol
- Dogfennau Polisi Eraill
- Deddfwriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan
- Digwyddiadau i Ddod
- Swyddi yn y Sector Plant

Mae'r E-friffiad Polisi yn cael ei ddosbarthu i fwy na 600 o unigolion, ond dengys adborth yr aelodau ei fod yn cyrraedd llawer mwy o bobl na hynny o fewn y sector plant yng Nghymru. Amcangyfrifir bod dros 5000 o unigolion o bosib yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi trwy ein Gwasanaeth Gwybodaeth am Bolisi.

Gofynnodd Arolwg Aelodaeth Plant yng Nghymru 2011 beth mae'r aelodau yn ei wneud a'r wybodaeth maent yn ei derbyn. Dengys yr ymatebion mor eang mae'r wybodaeth yn cael ei dosbarthu:

"Defnyddiol i hysbysu strategaeth a pholisi ein sefydliad at y dyfodol, hefyd i hysbysu rhieni/gofalwyr a staff a sicrhau bod pawb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf"
Rheolwr Cyffredinol, Y Bont

"Ei throsglwyddo i glybiau ar ôl ysgol, ysgolion ac unigolion y gallai fod o ddiddordeb/ddefnydd iddynt. Defnyddio'r wybodaeth i helpu i gynllunio datblygiad"
Swyddog Datblygu, Clybiau Plant Cymru

"Ei throsglwyddo i gydweithwyr a myfyrwyr a'i defnyddio wrth baratoi darlithoedd"
Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

"Ei lledaenu i Weithwyr Achosion sy'n gweithio ar Brosiectau Gwell Cyngor Gwell Iechyd a hawliadau Anabledd Plant yn Cyngor ar Bopeth Cymru."
Cydlynydd Prosiectau, Cyngor ar Bopeth Cymru

Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Cyhoeddir Cylchgrawn Plant yng Nghymru bob chwarter ac mae'n cynnwys amrywiaeth o newyddion ac erthyglau nodwedd. Mae'n crynhoi'r newyddion diweddaraf o'r Cynulliad a'r Senedd, Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys amrywiaeth o erthyglau a chyfweliadau manwl yn ogystal â cholofnau rheolaidd gan y Comisiynydd Plant a'r Ddraig Ffynci. Yn ystod 2010/11 bu'r cylchgrawn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am yr holl waith roedd Plant yng Nghymru yn ei wneud i gadw plant ar yr agenda yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol, ac roedd yn cynnwys erthyglau am effaith y toriadau yn y gyllideb ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd hefyd yn edrych ar beth roedd pobl yn y sector plant yn teimlo y dylai Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru ei wneud dros blant.

Pecyn gwybodaeth chwarterol cynhwysfawr

Anfonir y cylchgrawn at ein haelodau yn ein dosbarthiad post chwarterol sydd hefyd yn cynnwys briffiad ar amrywiaeth o bynciau. Yn ystod 2010/11 buom yn cynhyrchu briffiad ar ddeddfwriaeth amrywiol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan, er mwyn sicrhau bod gan ein haelodau'r wybodaeth ddiweddaraf. Yn ogystal â'r briffiad a'r cylchgrawn, mae'r wybodaeth sy'n cael ei phostio hefyd yn cynnwys copïau o Uchafbwyntiau'r Biwro Plant Cenedlaethol.





Mae adborth gan aelodau Plant yng Nghymru bob amser wedi dangos eu bod yn gosod gwerth mawr ar y gwasanaethau gwybodaeth. Gofynnodd Arolwg Aelodau 2011 i'r aelodau a allent roi unrhyw enghreifftiau o sut mae'r wybodaeth a ddarperir gan Plant yng Nghymru wedi bod o fudd i'w sefydliad neu'r rhai sy'n gweithio gyda nhw:

"Fel ymgynghorydd annibynnol mae rhai datblygiadau a newidiadau polisi na fyddwn wedi gwybod amdanynt fel arall"
Ymgynghorydd Annibynnol ar Waith Cymdeithasol

"Mae wedi helpu'r staff sydd, er eu bod wedi eu lleoli yng Nghymru, yn gweithio'n bennaf yn Lloegr, i ddeall beth yw'r gwahaniaethau wrth weithio yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi syniad da o beth yw blaenoriaethau Ewrop ac yn ein galluogi i weld ble mae synergedd"
Cynrychiolydd Cenedlaethol – Cymru, Gofal am y Teulu

"..mae rhai erthyglau yn eich cylchgrawn wedi bod yn ffocws da ar gyfer trafodaeth"
Swyddog Hawliau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Polisi, Datblygu Arfer ac Ymchwil

Mae llawer o waith Plant yng Nghymru yn ymwneud â hyrwyddo polisi a datblygu arfer. Yn ystod 2010/11 cynhaliwyd ystod eang iawn o weithgareddau a oedd yn hyrwyddo polisi a datblygu arfer ar draws amrywiaeth o feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

Rhwydwaith Gwrthfwlio

Sefydlodd Plant yng Nghymru Rwydwaith Gwrthfwlio newydd yn ystod 2010/11. Mae'r Rhwydwaith yn annog rhannu arfer effeithiol ar draws pob sector ac yn sefydlu cysylltiadau y mae mawr angen amdanynt rhwng y gwahanol strategaethau sydd ar waith. Mae aelodaeth Rhwydwaith Gwrthfwlio Plant yng Nghymru ar agor i bob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cadw mewn Cof - Nodyn Atgoffa (Aide Memoire) ar gyfer Damweiniau ac Anafiadau

Datblygodd Plant yng Nghymru aide memoire dwyieithog i helpu ymwelwyr iechyd i nodi achosion anafiadau angheuol, difrifol a rhai oedd yn achosi anabledd, ac i ysgogi trafodaeth gyda theuluoedd, gan ganfod newidiadau o ran ymddygiad ac amgylchedd i leihau risg anafiadau. Mae pob ymwelydd iechyd ledled Cymru yn mynd i dderbyn copi papur o'r aide memoire hwn am ddim, a'r enw arno yw Cadw mewn Cof/Keep In Mind.

Rhaglenni Effeithiol er Atal Damweiniau

Mae Plant yng Nghymru'n gweithio'n uniongyrchol gyda chynlluniau cyfarpar diogelwch yn y cartref i wella eu heffeithiolrwydd. Yn ystod 2010/11 roedd y gwaith hwn yn cynnwys pedwar cynllun oedd eisoes yn bodoli. Cyn i'r gwaith gychwyn, roedd 20% o'r cyfarpar oedd yn cael ei ddosbarthu yn golygu bod anafiadau'n fwy tebygol, ac roedd hyd at 60% o'r cyfarpar yn aneffeithiol. Mae'r holl gynlluniau hyn bellach yn gweithio gydag ymyriadau ar sail tystiolaeth. Yn ystod y flwyddyn bu Plant yng Nghymru hefyd yn cefnogi sefydlu chwe chynllun lleol arall.

Neiniau a Theidiau

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd gyda neiniau a theidiau yng Nghymru. Mae'r adroddiad Oni bai amdanat ti Nain: Arolwg o Deidiau a Neiniau yng Nghymru, yn argymell y dylid cydnabod rôl neiniau a theidiau yng ngwead cymdeithasol ac economaidd Cymru, ac y dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn gydlynus ar lefel strategol fel bod gwasanaethau'n cydweithio'n well i gynnal neiniau a theidiau a'u teuluoedd.

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant

Cynhyrchodd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, a gydlynir gan Plant yng Nghymru, nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud â pholisi. Roedd hyn yn cynnwys Siarter 5 pwynt, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010, sy'n nodi'r camau i fynd i'r afael â thlodi plant oherwydd incwm yng Nghymru, a Phrawf Tegwch, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, y galwodd ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo iddo wrth wneud penderfyniadau ynghylch toriadau gwariant. Ym mis Tachwedd lansiodd y Rhwydwaith ei Faniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, Tlodi Plant: Maniffesto tuag at Ddileu.

Tlodi Tanwydd

Bu Plant yng Nghymru'n gweithio gyda Ffocws ar Ddefnyddwyr Cymru ar y prosiect Cadw'n Gynnes y Gaeaf Hwn, a oedd yn casglu profiadau a chanfyddiadau plant a phobl ifanc o dlodi tanwydd. Yn y diwedd cynhyrchwyd adroddiad, poster plant a phobl ifanc a DVD, a lansiwyd yn y Senedd ym mis Chwefror 2011.

Teuluoedd yn Gyntaf

Comisiynwyd Plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru ynghylch y fenter Teuluoedd yn Gyntaf. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2010, gan roi cyfle i'r consortia a ddynodwyd fel meysydd arloesi roi adborth ar y fenter i Lywodraeth y Cynulliad.

Plant Anabl yn Cyfri Cymru

Mae Plant yng Nghymru yn aelod gweithgar o Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri. Yn ystod y flwyddyn cefnogwyd yr ymgyrch honno wrth iddi lobïo dros hawliau plant a phobl ifanc anabl, a hynny yn yr etholiad cyffredinol ac wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Cynhyrchodd yr ymgyrch faniffesto, Rhoi Plant Anabl yn Gyntaf, a anfonwyd at yr holl bleidiau gwleidyddol yn yr hydref 2010, gyda chais am wneud plant anabl yn flaenoriaeth ym maniffesto pob plaid.

Hyfforddi Gweithwyr Proffesiynol ar Hawliau Plant

Derbyniodd Plant yng Nghymru gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o Raglen Cyrraedd y Nod Cronfa Strategol Ewrop, i ddatblygu adnoddau hyfforddi a fyddai'n helpu i hyfforddi gweithwyr proffesiynol ynghylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r adnoddau hyfforddi wedi eu bwriadu ar gyfer amrywiaeth o grwpiau proffesiynol, yn cynnwys athrawon, personél iechyd, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion gorfodi'r gyfraith.

Gofalwyr Ifanc

Cynhaliodd Plant yng Nghymru gyfres o dri chwrs preswyl rhanbarthol gyda gofalwyr ifanc. Cynhaliwyd y rhain yn ne, canolbarth a gogledd Cymru, ac roeddent yn canolbwyntio ar brofiadau gofalwyr ifanc a'r heriau maent yn eu hwynebu. Nodwyd y materion oedd yn allweddol iddyn nhw, a'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, yn enwedig yn yr ysgol, o ran iechyd, a chan y Llywodraeth.

Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau dros Blant yng Nghymru

Plant yng Nghymru sy'n gwasanaethu Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau dros Blant yng Nghymru yn San Steffan. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfle i ASau Cymru sydd â diddordeb mewn materion plant i ddod at ei gilydd yn rheolaidd i drafod materion sy'n destun pryder ac i gwrdd â rhai sy'n gweithio yn y sector plant yng Nghymru.

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Plant yng Nghymru sy'n cynrychioli'r sector plant gwirfoddol ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae hyn yn golygu cyflwyno barn y rhai sy'n gweithio yn y sector plant gwirfoddol yng nghyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac mewn cyfarfodydd a drefnwyd gyda gweinidogion unigol.

Cynrychiolaeth ac Ymgynghori

Un o brif rolau Plant yng Nghymru yw cyfleu barn ei aelodau i lunwyr polisi, ac rydym yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn ymateb i ystod eang o ymgynghoriadau ac yn cysylltu â'n haelodau, ein fforymau a'n rhwydweithiau i sicrhau bod ein hymatebion yn amlygu'r holl faterion sy'n berthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes. Mae copïau o'n holl ymatebion ymgynghori ar gael i'n haelodau yn yr Adran i'r Aelodau ar ein gwefan. Rydym hefyd yn rhoi tystiolaeth i amrywiol Bwyllgorau ac Ymchwiliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymgynghoriadau

Yn ystod 2010/11 cyflwynodd Plant yng Nghymru ymatebion i'r ymgynghoriadau canlynol:

- Diwygio Lwfans Byw i'r Anabl, yr Adran Gwaith a Phensiynau, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 18/02/11
- Trechu Tlodi Plant a Gwella Cyfleoedd Bywyd: Ymgynghori ar Ddull Newydd, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 15/02/11
- Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010: Rheoliadau Drafft Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (Cymru) 2011 a'r Rheoliadau Drafft ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd newydd, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 02/02/11
- Dweud eich Dweud – Cymru Ddwyieithog, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 29/01/11

Datblygiad y Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru)
Ymatebodd Plant yng Nghymru i'r Ymgynghoriad ar y Mesur Arfaethedig ar gyfer Strategaethau Gofalwyr (Cymru), gan dynnu sylw at yr angen am gynnwys gofalwyr ifanc yn benodol yn y mesur. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at ein hymgynghoriad yn ei hymateb yn y Senedd, gan nodi bod gofalwyr ifanc yn bendant wedi eu cynnwys yn y mesur. Ers hynny mae Plant yng Nghymru wedi parhau i weithio gyda Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid y Mesur Gofalwyr i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn parhau'n rhan annatod o'r Mesur.

Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu
Rhoddodd Plant yng Nghymru dystiolaeth i adolygiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu. Bu Plant yng Nghymru yn ymgynghori ag aelodau o Gyda'n Gilydd dros Hawliau (y Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl ar y pryd) ynghylch y mater yma, a llwyddwyd i gyfleu eu pryderon i'r Pwyllgor. Roedd y pryderon hynny'n cynnwys ofn bwlio, a dywedodd adroddiad y Pwyllgor *"O ystyried natur arbennig y bwlio sy'n cael ei gyfeirio at blant a phobl ifanc anabl, byddai'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad o bolisïau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn."*

- Toiledau Ysgol – Canllaw Arfer Gorau ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 24/01/2011
- Ymgynghoriad ar Reoliadau Ymweliadau â Phlant a fu gynt yn derbyn gofal sydd yn y ddalfa (Cymru) 2010; a Chanllawiau cysylltiedig, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 24/12/10
- Lles yr 21ain Ganrif, Hydref 2010, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 01/10/10
- Dogfen Ymgynghori ar Fathodynnau Glas, Estyn Cymhwysedd i Blant o dan 3 oed sydd â Chyflyrau Meddygol Penodol a Phobl ag Anableddau Difrifol yn y Ddwy Fraich, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 30/09/10
- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc: Canllawiau Interim 2011-14, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 14/09/10
- Rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 06/09/2010
- Strategaeth a Chynllun Cyflawni ar gyfer Tlodi Plant, Llywodraeth Cynulliad Cymru, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 12/08/2010
- Ymgynghoriad ar Reoliadau Drafft Cymru ar gyfer Rheoli Tybaco o dan Ddeddf Iechyd 2009, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 06/07/10
- Cynigion ar gyfer Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 27/08/10
- Plant sy'n Derbyn Gofal: ymgynghoriad ar ganllawiau drafft NIHCE/SCIE, daeth yr ymgynghoriad i ben ar: 14 Ebrill 2010

Ymchwiliadau

Yn ystod 2010/11 darparodd Plant yng Nghymru dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Ymchwiliadau canlynol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu
- Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: Cynhwysiad Cymdeithasol ac effaith Addysg Ariannol
- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Dilyniant i'r Ymchwiliad i Wasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Dilyniant i'r ymchwiliad i Rianta yng Nghymru a chyflenwi'r Cynllun Gweithredu Magu Plant
- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad dilynol i Dlodi Plant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru yn tynnu sylw at bryderon ein haelodau ac yn hwyluso datblygiad agenda plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau. Yn ystod 2010/11 roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

Cynrychiolaeth

Y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Y Rhwydwaith Gwrthfwlio
- Grŵp Llywio Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol Cymru
- Grŵp Cynllunio Gweithredu CAMHS
- Y Grŵp Byw'n Iach Trawsbleidiol
- Grŵp Llywio Gwerthuso Cymorth a Dechrau'n Deg

Cynrychiolwyd Plant yng Nghymru ar Grŵp y DU ar Rôl Greiddiol y Fydwraig, rhan o Fydwreigiaeth 2020.

Bu Plant yng Nghymru yn cynrychioli tadau ar draws y DU, ac yn codi nifer o faterion ynghylch rôl tadau a phartneriaid yn ystod y cyfnod geni. Arweiniodd gwaith y grŵp at gyhoeddiad i'r DU gyfan, Cyflawni Disgwyliadau - Bydwreigiaeth 2020, sy'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ar draws y DU erbyn 2020.

O ganlyniad i'n mewnbwn mae'r weledigaeth yn cydnabod bod tadau'n chwarae rôl gynyddol yn ystod beichiogrwydd, a bod eu hymwneud a'u cefnogaeth yn cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a deallusol y fam a'r baban. Mae'r ddogfen yn cyfeirio sawl tro at gysylltu nid yn unig â'r menywod, ond hefyd â'u partneriaid yn y gwasanaethau mamolaeth.

- Cyfarfodydd Plant Anabl yn Cyfri Cymru gyda'r Gweinidog
- Tasglu Plant Anabl yn Cyfri Cymru
- Cyfarfodydd y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant gyda'r Gweinidog
- Grŵp llywio'r Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd
- Grŵp Rhanddeiliaid Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Trawsbleidiol CCC ar Dlodi Tanwydd
- Bwrdd Ymgynghorol Gweinidogion y Cynulliad ar y GIG
- Grŵp Cenedlaethol Gofal Plant a Sefydliadau Chwarae
- Grŵp Llywio Llwybr Plant Troseddwyr NOMS
- Grŵp Cynllun Gofodol Gogledd-orllewin Cymru
- Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Y Grŵp Diwygio Statudol
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymorth i Ddysgwyr
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd gyda Gweinidogion
- Grŵp Llywio Cyfeirio Allanol Trosiannol
- Cyfarfodydd Materion Gwledig Gweinidogol LlCC
- Pwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Grwpiau Cymreig Eraill

- Grŵp Llywio Cynrychiolaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Grŵp Cyfarfod Grŵp Teuluoedd Cymru Gyfan
- Grŵp Erthygl 42
- Grŵp Cyswllt y Cynulliad
- Y Rhwydwaith Ymarferwyr Lloches
- Y Cynghrair Gofalwyr
- Grŵp Llywio Atebion Tlodi Plant
- Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Polisi Lloches i Blant
- Cyngor Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc CBS Conwy, Is-grŵp Nod Craidd 7
- Bwrdd Rheoli Cywaith

(Llinell Gymorth Meic)
- Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd DeCIPHER
- Fforwm Anabledd Dysgu Sir Ddinbych
- Rhwydwaith Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar
- Clymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd
- Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaethau Integredig
- Grŵp Siarter Tlodi Tanwydd
- Bwrdd Rheoli'r Ddraig Ffynci
- Grŵp Cyswllt – Cyngor Gwynedd
- Grŵp Llywio Atal Anafiadau Gwent
- Cyngor Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd, Is-grŵp Nod Craidd 7
- Grŵp Craidd Anabledd Gwynedd
- Y Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Y Pwyllgor Monitro Data Annibynnol ar gyfer gwerthuso'r Bartneriaeth Nyrsys Teulu
- Grŵp Cynrychioli Cwsmeriaid JC+
- Grwpiau Atal Damweiniau Lleol
- MEDA (Dynion sy'n Profi Cam-drin Domestig)
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Fforwm NEA Gogledd Cymru
- Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot
- Swyddogion Polisi Cyrff Anllywodraethol (NGO)
- Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (NLIAH) – Grŵp Llywio
- Fforwm Galluedd Ariannol Gogledd Cymru
- Fforwm Diogelu Plant Gogledd Cymru
- Y Consortiwm Cyfranogiad
- Y Consortiwm Cyfranogiad - Is-grŵp Addysg a Hyfforddiant
- Y Consortiwm Cyfranogiad - Is-grŵp Safonau
- Y Consortiwm Cyfranogiad - Is-grŵp U 10
- Rhwydwaith Cyfranogiad Gwynedd
- Prosiect Erthygl 30
- Grŵp Ymgynghorol Rhannu Gofal
- Fforwm Tlodi Tanwydd De Cymru
- Grŵp Llywio Stopiwch e nawr!
- Grŵp Monitro CCUHP
- Bwrdd Lleisiau o Ofal
- Cynghrair Cymru er Rheoli Tybaco
- Fforwm Diogelu Plant Cymru

Grwpiau yn y DU
- Rhwydwaith Cydlynu Gofal y DU
- Y Cyngor Plant Anabl
- Grŵp Rhanddeiliaid Cynhwysiad Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Fforwm Plentyndod Cynnar
- Grŵp Rheoli Dileu Tlodi Plant y DU
- Panel Dysgu Cymunedol a Datblygu LLUK
- Grŵp Cyfeiriadaeth Arbenigol Gweithio gyda Rhieni ar Fapio Swyddogaethol

Grwpiau Rhyngwladol
- Eurochild
- Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop
- Fforwm Polisi Ewrop
- Gweithgor Thematig y Teulu a Rhianta
- Y Fforwm Rhyngwladol dros Les Plant
- Grŵp Llywio Polisi
- Y Gweithgor Thematig ar Gyfranogiad

Cynyddu Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Phroffesiynol

Mae Plant yng Nghymru'n gweithio'n ddiflino i gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o'r materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, a ffyrdd o wella eu bywydau. Rydym yn gwneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Y Cyfryngau a Chyflwyniadau

Trwy'r cyfryngau gallwn roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith ein hunain a'r pryderon sydd gennym ynghylch materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2010/11 anfonwyd nifer o ddatganiadau i'r wasg allan gennym, yn sôn am ein digwyddiadau, ein cyhoeddiadau a materion eraill. Mae staff Plant yng Nghymru wedi rhoi dros 50 o gyfweliadau i'r cyfryngau ar ffurf teledu a radio, yn lleol a chenedlaethol, ac i amrywiaeth o allfeydd cyfryngau printiedig. Mae ganddynt hefyd golofn fisol reolaidd yn y cylchgrawn i'r DU gyfan, Children and Young People Now. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i grwpiau llai, yn ogystal â chynadleddau mawr, am ein gwaith ac agweddau penodol sy'n destun pryder i amrywiaeth o grwpiau yn lleol ac yn rhyngwladol.

Daeth y gynhadledd Neiniau a Theidiau a Gofal gan Berthnasau ag arweinwyr amlwg yn y maes a neiniau a theidiau ynghyd i drafod materion cyfreithiol, ariannol, ymarferol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â gofal gan berthnasau. Bu Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn siarad yn y gynhadledd, a dywedodd nad oedd ganddi lawer o wybodaeth flaenorol ynghylch gofal gan berthnasau. Roedd cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn bresennol, ac o ganlyniad cafodd swyddfeydd y ddau Gomisiynydd gyfle i drafod sut y gellid symud ymlaen gyda'r mater hwn, ar y cyd â Plant yng Nghymru.

"Cawsom gyfle i gael mynediad i'r wybodaeth ar Hyfforddiant a Hyfforddwyr Diogelwch yn y Cartref. Mae hynny bellach wedi ei raeadru i lawer o sefydliadau eraill a grwpiau rhieni, ar y cyd a Thîm Iechyd Parc Caia."
Gweithiwr Datblygu, Fforwm Blynyddoedd Cynnar *Parc Caia*

Digwyddiadau

Mae ein cynadleddau a'n digwyddiadau yn fforwm ar gyfer amlygu materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2010/11 buom yn cynnal amrywiaeth o gynadleddau, seminarau a gweithdai. Roedd y rhain yn edrych ar amrywiaeth o faterion, o rôl tadau, i atal damweiniau ac anafiadau ac atal bwlio. Buom hefyd yn trefnu ystod o ddiwrnodau gwybodaeth a seminarau oedd yn galluogi'r rhai oedd yn gweithio mewn meysydd penodol i ddod at ei gilydd a dysgu am faterion penodol, megis cynnal rhieni ag anableddau dysgu, neu brofedigaeth mewn lleoliadau diogel.

Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi amlddisgyblaeth, sy'n hybu agwedd integredig ymhlith pawb sy'n gweithio yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Mae'r cyrsiau'n tynnu ar adnoddau ein tîm arbenigol ein hunain o staff a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, er mwyn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ledled Cymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o hyfforddiant mewnol.

Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi sydd ar agor i bawb, a hyfforddiant penodol a gomisiynwyd gan asiantaethau allanol.

"Diwrnod hyfforddi gwych. Difyr a llawn gwybodaeth."
Chwarae Therapiwtig ar gyfer Plant mewn Angen

"Fe wnes i fwynhau'r cwrs yn fawr - mae wedi rhoi rhywbeth i mi gnoi cil arno a bydd yn hysbysu fy arfer clinigol"
Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant

Hyfforddiant Agored Plant yng Nghymru

Yn ystod 2010/2011 cynhyrchodd Plant yng Nghymru ddwy raglen o hyfforddiant agored. Roedd ein llyfrynnau hyfforddi yn cynnwys amrywiaeth uchelgeisiol o hyfforddiant, yn cynnwys pynciau newydd, yn ogystal â rhai a gynhaliwyd yn llwyddiannus yn y gorffennol. Roedd y cyrsiau'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys amddiffyn plant, cam-drin domestig, cyfathrebu â phlant anabl, iechyd meddwl rhieni a'r effaith ar blant, atal damweiniau plant, canlyniadau meddal a gwaith grwpiau.

Hyfforddiant wedi ei Gomisiynu

Mae Plant yng Nghymru yn derbyn ceisiadau rheolaidd i ddarparu hyfforddiant mewnol ar gyfer amrywiaeth eang o sefydliadau, o elusennau bychain a busnesau preifat i adrannau hyfforddi awdurdodau lleol. Plant yng Nghymru sy'n cyd-drafod manylion penodol y gofynion hyfforddiant a'r costau, ac mewn llawer o achosion mae'r ymholiadau cychwynnol yn arwain at gyflenwi. Ar gyfer amddiffyn plant mae llawer o'r hyfforddiant hwn a gomisiynir, er ein bod hefyd wedi cael mynegiad o ddiddordeb mewn prynu hyfforddiant i mewn a hysbysebwyd trwy'r rhaglen agored, yn cynnwys Canlyniadau Meddal, Gweithio gyda Thadau, Cam-drin Domestig a'r Polisi Plant yng Nghymru.

Hyfforddiant Amddiffyn Plant ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol

Mae Plant yng Nghymru wedi llwyddo i sicrhau contract gydag Adran yr Ôl-raddedigion Deintyddol yn Ysbyty Deintyddol y Brifysgol. Contract yw hwn ar gyfer darparu hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2, yn fewnol, i holl staff meddygfeydd deintyddol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn darparu hyfforddiant mewn canolfannau i ôl-raddedigion ledled Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu gan gronfa o hyfforddwyr cysylltiol sydd yn gweithio ledled Cymru. Mae Plant yng Nghymru'n ymateb i geisiadau gan bractisau trwy drefnu bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan hyfforddwr yn eu hardal ddaearyddol nhw.

Hyfforddiant Cyrraedd y Nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Darperir yr hyfforddiant hwn yn ddi-dâl i ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal cydgyfeiriant Cronfa Gymdeithasol Ewrop, fel rhan o ymwneud Plant yng Nghymru fel partner â Rhaglen Cyrraedd y Nod. Bwriad yr hyfforddiant yw cynnal ymarferwyr i weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o fod yn NEET, fel eu bod yn gallu eu helpu i wella eu cyfleoedd bywyd. Bu llawer iawn o ddiddordeb yn yr hyfforddiant, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr a fu'n bresennol.

Hyfforddiant CCUHP i Weithiwyr Proffesiynol

Llwyddodd Plant yng Nghymru i sicrhau contract i greu canllawiau hyfforddi ar CCUHP ar gyfer gweithwyr proffesiynol, ac adnoddau cysylltiedig i'w defnyddio yn yr hyfforddiant. Y sectorau proffesiynol a nodwyd oedd addysg, iechyd, yr heddlu a'r gyfraith, gwaith cymdeithasol a chyfiawnder ieuenctid. Roedd y prosiect yn cynnwys ymgynghori helaeth â chynrychiolwyr o'r sectorau hyn, ac un o'r negeseuon allweddol oedd bod angen i'r hyfforddiant roi sylw i waith partneriaeth. Arweiniodd hyn at gynhyrchu canllaw hyfforddi y gellir ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau amlddisgyblaeth. Bu Plant yng Nghymru hefyd yn gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc i ddatblygu adnoddau awdio oedd yn amlygu materion hawliau, yn enwedig ar gyfer grwpiau penodol oedd yn agored i niwed yng Nghymru, ond hefyd ar gyfer plant yn gyffredinol. Bydd yr holl adnoddau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Gwneud Pethau'n Iawn CCUHP.

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

"Hyfforddwr gwych, gwybodus dros ben, a gadwodd yr hyfforddiant yn ddiddorol a rhoi llu o syniadau newydd i ni. Rhagorol!"
Agweddau Cadarnhaol at Ymddygiad Cadarnhaol

"Diwrnod Ardderchog – diolch yn fawr iawn i chi"
Cyflwyniad i Esgeuluso Plant

"Fe wnes i fwynhau'r cwrs yn fawr, ac fe'm gwnaeth yn llawer mwy ymwybodol o realiti'r hyn sy'n digwydd a sut mae rhoi stop ar y sefyllfaoedd hynny cyn i unrhyw beth eithafol ddigwydd."
Cyflwyniad i Esgeuluso Plant

Cynadleddau, Seminarau a Gweithdai

Mae Plant yng Nghymru'n trefnu amrywiaeth o gynadleddau, seminarau a gweithdai. Roedd y gweithgareddau yn 2010/11 yn cynnwys:

Cynadleddau

- **Sut mae Amddiffyn Plant mewn Teuluoedd sy'n destun Lloches? 5 Mai 2010** – Tynnodd y gynhadledd sylw at y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan Plant yng Nghymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant ymhlith Grwpiau Cymunedol Ffoaduriaid.
- **Cynhadledd Genedlaethol Tlodi Plant, 27 Mai 2010**
- - Cyflwynwyd y gynhadledd hon gan Plant yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Achub y Plant. Rhoddodd gyfle i randdeiliaid drafod y cyfleoedd a'r heriau yng nghyswllt gweithredu i leihau tlodi plant yng Nghymru, o ganlyniad i ddyletswyddau statudol newydd a amlinellwyd yn y Mesur Plant a Theuluoedd.
- **Mae gan Blant a Phobl Ifanc Anabl Hawliau Hefyd! 23 Mehefin 2010** – Edrychodd y gynhadledd hon ar sut gellir gwneud plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn flaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a hefyd ar adroddiadau'r DU i'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant anabl.
- **Ymateb i'r Her, Cadw Plant ar yr Agenda** - Cynhadledd Bord Gron Flynyddol Plant yng Nghymru a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Roedd y gynhadledd hon yn gyfle i gyfnewid arfer ac ystyried themâu pwysig Tlodi Plant a Chynnal Teuluoedd Agored i Niwed yn fanwl.
- **Neiniau a Theidiau a Gofal gan Berthnasau, 31 Mawrth 2011** - Daeth y gynhadledd hon ag arweinwyr llunio polisi a gweithwyr proffesiynol yn y maes at ei gilydd er mwyn adolygu polisi ac arfer yng nghyd-destun gofal gan berthnasau, ac i amlygu'r materion cyfreithiol, ariannol, ymarferol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â hyn.

Seminarau a Gweithdai

- **Pethau i'w gwneud a lleoedd i fynd! Mynediad i weithgareddau hamdden a chwarae cymunedol i blant a phobl ifanc anabl, 19 Mai 2010** – Amlygodd y seminar hon waith amrywiaeth o sefydliadau sy'n cefnogi gwasanaethau i gynnwys plant a phobl ifanc anabl yn eu gweithgareddau
- **Gwybod bod yr hyn a wnewch yn gweithio: Mesur eich effeithiolrwydd eich hun gyda theuluoedd, rhieni a phlant, 12 Hydref 2010** - Roedd y sesiwn wybodaeth hon yn helpu'r cynrychiolwyr i ddeall telerau a materion sy'n codi wrth fesur effeithiolrwydd, a sut mae ymdrin â hynny ar sail ymchwil gadarn ac arfer gorau.
- **Rhuthro i Wagle? Gwireddu potensial pobl ifanc anabl wrth iddynt bontio i fywyd oedolion, 29 Tachwedd 2010** – Amlygodd y seminar hon waith amrywiaeth o sefydliadau sy'n ceisio gwella profiad pobl ifanc anabl o bontio i oedolaeth a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn.
- **Gweithdy Adolygu Marwolaethau Plant, 1 Mawrth 2011** - Gweithdy amlsector oedd hwn, yn canolbwyntio ar hunanladdiad ymhlith plant, yng ngofal Plant yng Nghymru ar ran Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Cyrraedd y Nod

Mae Plant yng Nghymru yn un o gyd-noddwyr prosiect Cyrraedd y Nod, sy'n cefnogi pobl ifanc i gaffael sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth trwy brofiad gwaith a chyfleoedd yn y gymuned. Yn ystod 2010/11 mae'r arian hwn wedi cynnal nifer o ddatblygiadau yn Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru a T4R. Mae hefyd wedi cynnal agweddau ar ein rhaglen hyfforddi.

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Gyda'n Gilydd dros Hawliau (T4R)

Mae grŵp T4R Plant yng Nghymru yn darparu strwythur sy'n cefnogi pobl ifanc anabl i chwarae rhan lawn, weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau. Nod grŵp Cymru gyfan yw rhoi cyfleoedd i bobl ifanc anabl wneud y canlynol:

- Cwrdd a chael hwyl
- Deall eu hawliau
- Codi materion sy'n destun pryder yn eu bywydau beunyddiol
- Cael lleisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a'u cyfoedion
- Meithrin eu galluoedd, trwy gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, fel eu bod yn dod yn gyfranogwyr effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau

Bu cynrychiolwyr pobl ifanc o Sir Benfro, Abertawe, Blaenau Gwent, Gwynedd a Sir Ddinbych yn cymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb awr o hyd gyda Chomisiynydd Plant Cymru adeg lansio T4R ym mis Hydref 2010. O ganlyniad i hynny, addawodd ef flaenoriaethu materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc anabl yn ei gynlluniau gwaith ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Newidiwyd enw'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl gynt i Gyda'n Gilydd dros Hawliau (Together 4 Rights, neu T4R) yn ystod 2010/11. Datblygwyd enw a logo newydd y rhwydwaith gan y bobl ifanc eu hunain trwy waith gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Cymru. Fe'i lansiwyd ym mis Hydref 2010 yn Swyddfeydd y Comisiynydd Plant.

Mae'r datblygiadau eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Datblygu rhaglen ysgolion T4R sydd wedi galluogi disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru i gymryd rhan mewn sesiynau ar CCUHP
- Digwyddiadau rhanbarthol, er mwyn galluogi pobl ifanc o bob rhan o Gymru i ddod at ei gilydd
- Mae pobl ifanc o'r grŵp T4R wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a digwyddiadau a drefnwyd gan Plant yng Nghymru a sefydliadau allanol
- Mae aelodau o T4R wedi rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau a digwyddiadau

Mae'r bobl ifanc sy'n ymwneud â T4R wedi rhoi llawer o adborth cadarnhaol:

"Cyflwyno'r gweithdy i T4R oedd fy munud falchaf"

"Fe wnes i fwynhau'r cyfarfodydd yn fawr. Allwn ni gael rhagor, plîs?"

"Fy hoff ran o'r sesiwn oedd dod i nabod pawb a bod yn rhan o bethau. Diolch i bawb am ddiwrnod gwych."

"Roedd yn dda cwrdd â phobl o Ogledd Cymru drwy ddolen fideo ac â'r Comisiynydd Plant yn bersonol."

Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Cyrraedd y Nod

Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru

Gwasanaeth di-dâl yw Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru (PWNW), sy'n cefnogi ymarferwyr a sefydliadau i hybu cyfranogiad trwy eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Sefydlwyd y Rhwydwaith yn 2006 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o fenter Cyrraedd y Nod.

Mae PWNW yn rhedeg gwasanaeth ar-lein lle gall gweithwyr yng Nghymru gael gwybodaeth am y newyddion a'r polisïau diweddaraf ym maes cyfranogiad. Mae ymarferwyr hefyd yn cael eu cysylltu drwy'r Ardal Aelodau, lle gallant chwilio am enghreifftiau o arfer da i gynnal eu gwaith, a rhannu eu hastudiaethau achos eu hunain a'r gwaith sydd o'u blaenau.

Ail-lansiwyd y wefan gyda dyluniad newydd yn hwyr yn 2010. Mae hefyd ficrosafle newydd o'r enw 'Mesur Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc', sy'n galluogi ymarferwyr i asesu eu gwaith yn erbyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc a gweithio tuag at dderbyn nod Barcud Cyfranogiad sy'n cydnabod eu gwaith.

Mae PWNW hefyd wedi dechrau rhaglen o waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn wedi cynnwys y canlynol:

- Cadw'n Gynnes y Gaeaf Hwn: Bu PWNW yn ymwneud â phrosiect Plant yng Nghymru, ac yn cynnal cyfres o weithdai mewn ysgolion ledled Cymru yn edrych ar dlodi tanwydd, ei effeithiau ac atebion i'r broblem. Daeth y prosiect i ben gyda digwyddiad lansio a rhyddhau adroddiad, DVD a thaflen i blant a phobl ifanc
- Rydym yn parhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc, gan ymgynghori â gofalwyr ifanc ynghylch eu profiadau, y gefnogaeth y maent yn ei derbyn ar hyn o bryd, a'r hyn y mae ei hangen arnynt yn y dyfodol. Daeth y sesiynau preswyl rhanbarthol i ben gyda chwrs preswyl cenedlaethol, a gynlluniwyd ar gyfer haf 2011

Mae PWNW wedi ei leoli yn Plant yng Nghymru, ac mae'n rhan o Gonsortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru.

Dyfyniadau o Ymgynghoriad Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru

"Gan fy mod i'n newydd i faes Cyfranogiad, mae wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r gwaith gyda phobl ifanc".

"Rwy'n cael bod yr e-friffiad yn ddefnyddiol dros ben o ran derbyn gwybodaeth reolaidd ynghylch beth sy'n digwydd. Mae'n wych."

"Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac mae bob amser yn dda darllen am arfer da pobl eraill"

Cyrraedd y Nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop Hyfforddiant

Mae rhaglen hyfforddi Plant yng Nghymru yn cynnwys hyfforddiant a ddarperir trwy raglen Cyrraedd y Nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Darperir yr hyfforddiant hwn yn ddi-dâl i ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal cydgyfeiriant Cronfa Gymdeithasol Ewrop, fel rhan o ymwneud Plant yng Nghymru fel partner yn rhaglen Cyrraedd y Nod. Bwriedir yr hyfforddiant i gynorthwyo ymarferwyr i weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau o bobl ifanc NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET, i helpu i wella cyfleoedd bywyd y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Bu llawer o ddiddordeb yn yr hyfforddiant, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr a fu'n bresennol ynddo.

Cefnogi Mentrau Newydd a Rhai sydd Eisoes yn Bodoli

Cefnogi Cynnar
Early Support

Plant yng Nghymru sy'n arwain y bartneriaeth sy'n gweithredu'r Rhaglen Cymorth Cynnar yng Nghymru. Cymorth Cynnar yw rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cydlynus, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y teulu, ar gyfer plant anabl o dan bump oed a'u teuluoedd, gan ymateb i'w hanghenion. Mae Cymorth Cynnar yn codi'r disgwyliadau o ran sut bydd asiantaethau a gwasanaethau'n cydweithio i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd ac yn annog newid. Mae'n ymdrin ag anghenion hyfforddiant ac yn hyrwyddo datblygiad gwasanaethau gweithwyr allweddol. Mae Cymorth Cynnar hefyd yn cefnogi datblygiad gweithlu amlasiantaeth, ac yn darparu adnoddau ymarferol sy'n sbarduno ac yn cynnal y broses o newid ar lefel leol.

"Pan oedd fy merch yn wyth mis oed ces i fy nghyflwyno i Ganolfan Blant Caerffili, lle ces i'r help a'r gofal angenrheidiol i wella ansawdd ei bywyd. Yma y des i gysylltiad gyntaf â'r rhaglen Cymorth Cynnar. Mae fy merch wedi cael budd gan lawer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, a thrwy gael mynediad at weithiwr allweddol. Mae Cymorth Cynnar wedi fy nghyflwyno i offer cynnal megis y dyddlyfr datblygiad, yr ydw i'n ei ddefnyddio i gofnodi ei datblygiad parhaus a'i chyflawniadau niferus, ac mae hynny hefyd yn rhoi ffocws ar gyfer ei chyflawniadau yn y dyfodol. Gyda help Cymorth Cynnar mae fy ngobaith a'm hoptimistiaeth ar gyfer y dyfodol wedi dychwelyd. Fel rhiant plentyn ag anghenion ychwanegol, mae'n hanfodol bod gennych fynediad i rwydwaith o gymorth sydd nid yn unig ar gael, ond yn gweithio. Mae cyfuno gwasanaethau o wahanol asiantaethau i ddarparu help a chyngor yn hanfodol i wella bywydau teuluoedd fel fy nheulu i."
Rhiant sy'n ymwneud â Rhaglen Cymorth Cynnar

Mae ail flwyddyn rhaglen Cymorth Cynnar wedi canolbwyntio ar ddatblygu a mewnosod gwasanaethau lleol, gan ddarparu hyfforddiant a chynnal datblygiad syniadau newydd trwy'r cynllun ariannu ychwanegol. Mae Ymgynghorwyr Cymorth Cynnar wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid o awdurdodau lleol, iechyd a'r sector gwirfoddol i helpu i fewnosod Cymorth Cynnar i deuluoedd, ac er bod gwaith i'w wneud o hyd, mae llawer o feysydd yn gwneud cynnydd arbennig o dda.

Bu tri chylch o gynigion am arian ychwanegol, gyda phob cylch yn denu ystod o gynigion diddorol, ac roedd rhai o'r prosiectau a ariannwyd yn cynnwys darparu gweithdai i rieni, wedi eu hwyluso gan Cyswllt Teulu, darn o waith ymchwil ar ddarparu Cymorth Cynnar i deuluoedd mewn cymunedau gwledig a thrwy gyfrwng y Gymraeg, a gynhaliwyd yng Ngwynedd, a gwaith ymchwil partneriaeth ar ddefnyddio'r Model Cymorth Cynnar mewn lleoliad ysgol, dan arweiniad Awtistiaeth Cymru.

Lluniwyd yr hyfforddiant Cymorth Cynnar i gynnal gwelliant mewn gwasanaethau i blant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd. Y nod yw galluogi ymarferwyr a rheolwyr, rhieni a gofalwyr, i ddatblygu a gwella eu dealltwriaeth o sut mae egwyddorion, dulliau a deunyddiau Cymorth Cynnar yn eu helpu i ddarparu gwell cefnogaeth i blant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol.

www.cefnogicynnarcymru.org.uk

Mae Plant yng Nghymru yn un o bum sefydliad a gyflwynodd dendr llwyddiannus am y contract i gyflenwi llinell gymorth genedlaethol eiriolaeth, cyngor a gwybodaeth Meic, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy'n byw yng Nghymru. Sefydlwyd llinell gymorth Meic ym mis Medi 2010, ac fe'i hestynnwyd i wasanaeth 24 awr ym mis Chwefror 2011. Plant yng Nghymru sy'n cadeirio Bwrdd Rheoli Cywaith, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth, ochr yn ochr â'n partneriaid, Tros Gynnal, Lleisiau o Ofal Cymru, NYAS a ProMo Cymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o'r llinell gymorth a hybu defnydd ohoni.

Y llinell gymorth yw'r gyntaf o'i bath ar lefel genedlaethol. Mae'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc trwy wasanaeth ffôn, testun, negeseuon uniongyrchol ac e-bost. Mae'r Llinell Gymorth yn ddwyieithog, a gellir cysylltu â hi'n ddi-dâl. Mae'r gwasanaeth yn un cyfrinachol, dienw, ac mae'n darparu gwybodaeth, yn cyfeirio at wasanaethau eraill, ac yn rhoi mynediad i eiriolwr proffesiynol annibynnol.

www.meiccymru.org

Llywodraethiant

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys 12 aelod, sy'n delio â chyllid a llywodraethiant y sefydliad. Etholir yr aelodau'n flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac maent yn gwasanaethu am uchafswm o dair blynedd. Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2010/11 oedd:

- Dr Mike Shooter CBE (Cadeirydd)
- Stuart Chapman (Trysorydd)
- Roger Bishop, Tros Gynnal
- Rebekah Burns, Cymorth i Fenywod Caerdydd (o'r CCB ar 15.12.10)
- Diane Daniel
- Dr Iolo Doull, Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant yng Nghymru
- Mike Greenaway, Chwarae Cymru (o'r CCB ar 15.12.10)
- Philip Hodgson (o 23.2.11)
- Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)
- Yvonne Rodgers, Barnardo's Cymru
- Greta Thomas
- Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin (tan 15.12.10)
- Emily Warren
- John Valentine Williams OBE

Y Cyngor Polisi

ChMae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n cyflwyno argymhellion ynghylch materion polisi plant a phobl ifanc i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ond nid oes ganddo swyddogaeth llywodraethiant. Mae'r Cyngor Polisi yn cynnwys 10 aelod a benodwyd ymlaen llaw o gyrff allweddol, gyda hyd at 21 o lefydd eraill wedi eu hethol o blith yr aelodau. Mae 12 ymddiriedolwr Plant yng Nghymru hefyd yn dod yn aelodau yn awtomatig. Aelodau'r Cyngor Polisi yn ystod 2010/11 oedd:

Cynrychiolwyr Cyrff a Benodwyd ymlaen llaw

- ADEW (cynrychiolydd - Pierre Bernhard-Grout, CLILC)
- Y Ddraig Ffynci (cynrychiolydd - Darren Bird)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (cynrychiolydd - Dr Hywel Williams)
- Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant yng Nghymru
- CLILC (cynrychiolydd - Beverlea Frowen)
- Conffederasiwn y GIG (cynrychiolydd - Win Griffiths)
- ACPO
- ADSS (cynrychiolydd - Leighton Rees, Cyngor Sir Ddinbych)

Aelodau Etholedig

- Pippa Boss, Shared Care Cymru
- Felicity Fletcher, Relate Cymru
- Wendy Hawkins, Clybiau Plant Cymru
- Jan Leightley, Gweithredu dros Blant
- Jayne Saunders, Hosbis Plant Tŷ Hafan yng Nghymru
- Dr Elspeth Webb, Ysbyty Prifysgol Cymru
- Christine Walby

Arsylwyr

- CAFCASS Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru

Aelodau Plant yng Nghymru

Yn ystod 2010/11 roedd gan Plant yng Nghymru gyfanswm o 308 o aelodau, yr oedd 215 ohonynt yn aelodau sefydliadol a 58 yn unigolion. Roedd 35 unigolyn arall, sy'n gweithio i sefydliadau sydd eisoes yn aelodau, hefyd wedi ymuno fel aelodau atodol. Dyma restr o'n haelodau yn 2010/11:

Sefydliadau

ABCD
Prifysgol Aberystwyth
Gweithredu dros Blant
Adoption UK
AFASIC Cymru
Allied Healthcare
Amy Weir & Associates Ltd
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Cychwyn Cadarn/Dechrau'n Deg
Arad Consulting
Ysgol Aran Hall
ASH Wales (Gweithredu ar Smygu a Iechyd yng Nghymru)
Atal y Fro
Prifysgol Bangor
Canolfan Gofal Dydd Tir Na Nog Prifysgol Bangor
Barnardo's Cymru
BAWSO
BBC – Plant mewn Angen
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bettws Lifehouse
Canolfan Therapi Plant Bobath
Booktrust
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
Bryn Melyn Care Ltd
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Rhwydwaith Rhieni Caerffili
CAFCASS Cymru
Fforwm Blynyddoedd Cynnar Parc Caia
Canolfan Plant Jig-So
Canolfan Plant y Frenni
CAPIC (Cydweithio er Rheoli Anafiadau ac Atal Damweiniau)
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cyngor Caerdydd
Cychwyn Cadarn Cyngor Caerdydd
Sefydliad Iechyd Cymdeithasol a Moeseg Caerdydd
Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd
Prifysgol Caerdydd
Cymorth i Fenywod Caerdydd
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerdydd
Rhwydwaith Cydlynu Gofal y DU (CCNUK)
Gofal am y Teulu
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymdeithas Plant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin (CYCA)
Cartref Bontnewydd
CCPAS
Cyngor Sir Ceredigion
Y Gwasanaeth Therapi Plant
Cyngor ar Bopeth Cymru
Dinas a Sir Abertawe – Llyfrgell Deganau Deithiol
Dinas a Sir Abertawe - Storm Project
Clybiau Plant Cymru
Coleg Bridgend
Coleg Deeside
Ffocws ar Ddefnyddwyr Cymru
Cyswllt Teulu Cymru
ContinYou Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)
Ysgol Gyfun Croesyceiliog
Gofal Profedigaeth Cruse Cymru
Canolfan Blant Integredig Cwm Golau
Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Cymdeithas Tai Clwyd
Cyngor Gwynedd
Dangerpoint
Y Ddraig Ffynci
Cyngor Sir Ddinbych – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Cyngor Sir Ddinbych – Dechrau'n Deg
Cyngor Sir Ddinbych – Margaret Morris ICC
Cyngor Sir Ddinbych – The Oak Tree ICC
DEWIS Ltd
Discovery – Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe
Dyfodol Powys Futures
Dynamix Ltd
Dyscovery Centre
Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion ac Addysg (ESIS)
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Face2Face
Fairbridge Cymru
Families Need Fathers Cymru
Sefydliad y Teulu a Rhieni
Family Fund
Firebrake Wales
First Campus
Cyngor Sir y Fflint
Focus Consultancy
Canolfan Plant Forest
Foster Care Associates
Rhwydwaith Maethu Cymru
FPA
Gwasanaethau Gofal a Chyfiawnder G4S
GISDA
Ysgol Arbennig Greenfield
Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
Hafal
Hafan Cymru
Canolfan Plant Calon y Cymoedd
Home Start
Home Start Blaenau Gwent
Home Start Pen-y-bont ar Ogwr
Home Start Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Iaith Cyf
Hyfforddiant y Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru
Cymdeithas Annibynnol Cartrefi Plant
Independent Professional Management
Interlink
Investigative Interviewing Training and Consultancy Limited
Cyngor Sir Môn
Jargon Caft
Canolfan Byd Gwaith
Kidzone Consultancy
Law yn Llaw
Anabledd Dysgu Cymru
Llamau Ltd
Cymorth i Fenywod Llanelli
Canolfan Plant Llwynhendy
M C Consultancy
Ysgol Gynradd Maes-y-Coed
Mantell Gwynedd
MENCAP Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
Cyngor Sir Mynwy – Canolfan Integredig Acorn i Blant
Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir Fynwy
Cyngor Sir Mynwy – Prosiect Pontio
Canolfan Argyfyngau Teuluol Sir Drefaldwyn
Mudiad Ysgolion Meithrin
Cymdeithas Genedlaethol y Llyfrgelloedd
Teganau a Hamdden
Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)
Conffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni Cymru
Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysg (SCYA)

National Portage
Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
Coleg Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Hyfforddiant a Datblygiad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Iaith a Chwarae
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Dechrau'n Deg
Cymorth i Fenywod Castell-nedd
Cyngor Dinas Casnewydd
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd
Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – Uned Troseddau Technegol
NSPCC
Parenting UK
Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli
Pathway Care
Coleg Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro – Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Ysgol Gynradd Gymunedol Penpych
Uned Pobl a Gwaith
Plant Dewi
Chwarae Cymru
Gwasanaeth Gofalwyr Powys
Cyngor Sir Powys
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys
ProMo-Cymru
Prospects for Young People
Iechyd Cyhoeddus Cymru
RAY Ceredigion
Bwrdd Lleol Diogelu Plant RhCT
Relate Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Right From The Start (Caerffili)
RNIB Cymru
RNID Cymru
Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant
Safer Wales Ltd
Achub y Plant
Scope Cymru
SENSE Cymru
Rhwydwaith Rhannu Gofal Cymru
Ymgynghoriaeth Gwaith Cymdeithasol Sheila Booth
SNAP Cymru
Sova Cymru
Spark Blaenymaes Ltd
SSSP Consultants Ltd
St Andrew's Infant School
Cymdeithas Plant Dewi Sant
St John Cymru Wales
Stopiwch e nawr! Y DU ac Iwerddon
Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Esgobaeth Abertawe a Brycheiniog
Coleg Abertawe
Prifysgol Abertawe
TACT Cymru
Talk Training Ltd
Sefydliad Beth Johnson
Clinig Euphelia
Ymddiriedolaeth Frank Buttle
The Place2Be
The Venture
Uned Ymchwil Thomas Coram
TJB Cymru Cyf
Meithrinfa a Creche Montessori Toadhall
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Tim Cynnal Teuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Dysgu a Chyfranogiad Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Cymunedau'n Gyntaf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
Touch Trust Ltd
Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields
Tros Gynnal
Hosbis Plant Tŷ Hafan
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
UNICEF UK
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant – Ysgol Cyfiawnder Cymdeithasol a Chynhwysiad
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant – Ysgol Addysg y Blynyddoedd Cynnar
Usborne Children's Books
UWIC
Cyngor Bro Morgannwg – Dechrau'n Deg
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Lleisiau o Ofal (Cymru)
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tydfil
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)
Wavehill Consulting
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cymorth i Fenywod Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cymorth i Fenywod Wrecsam
Y Bont
YMCA Cymru
Canolfan Blynyddoedd Cynnar Ynyscynon
Ysgol Syr Thomas Jones
Coleg Ystrad Mynach
Zion Baptist Chapel

Aelodau Unigol

Dr Barbara Wilson
Ms Anne Crowley
Y Cyng. Christine Walby OBE
Mrs Clare Lucignoli
Mr Dafydd Ifans
Mrs Diane Daniel
Mrs Diane Earl
Mr Elvet Crowe
Yr Athro Jo Sibert
Miss Hannah Bussicott
Mrs Jan Berry
Ms Jan Owen
Mrs Jayne Isaac
Mr John Llewellyn Thomas
Mr John Valentine Williams OBE
Mrs Laura Horton
Mrs Lesley Conran
Mrs Lesley Parratt
Ms Margaret Hanney MBE
Ms Mary Anne Marsden
Mr Merfyn Roberts
Mr Robin Griffiths
Y Parchg David Calvin-Thomas
Ms Ruth Parry
Ms Sarah Herbert-Jones
Mrs Sioned Bowen
Ms Sue Thomas
Yr Athro Nigel Thomas
Ms Veronica Grant
Mr Robin Griffiths
Rev David Calvin-Thomas
Ms Ruth Parry
Ms Sarah Herbert-Jones
Mrs Sioned Bowen
Ms Sue Thomas
Prof Nigel Thomas
Ms Veronica Grant

Crynodeb Ariannol

Adnoddau i Mewn/£	
Grant Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	581,621
Cyfraniadau	195
Incwm Buddsoddi	5,952
Is-gwmnïau Grantiau	197,793
Ffïoedd yr Aelodau	39,795
Gweithgareddau Creu Arian	823,503
Cyfanswm yr Adnoddau i Mewn	**1,648 ,859**

Adnoddau a Wariwyd/£	
Cost cynhyrchu cyllid	
Gwasanaethau Cynnal ac Aelodaeth	114,343
Gwariant elusennol uniongyrchol	1,563,140
Costau Llywodraethiant	17,206
Cyllid Pensiwn	3,000
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	**167,689**
Incwm net ar gyfer y Flwyddyn	-£48,830

Dadansoddiad o'r Gwariant Elusennol fesul Amcan/£	
Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf	253,299
Cynrychiolaeth ac Ymgynghori	239,033
Cynhyrchu, hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth	460,176
Datblygu polisi, arfer ac ymchwil	448,542
Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol	166,061
Gwasanaethau Cynnal yr Aelodau	113,372
Llywodraethiant	17,206
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	**1,697,689**

Adnoddau i Mewn



Gwariant Elusennol